**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar ansawdd addysg yn**

**Ysgol Bodfeurig**
**Tregarth, Gwynedd,**
**LL57 4RH**

**Rhif yr ysgol: 6612013**

**Dyddiad yr arolygiad: 26/04/10**
**gan**

**Gareth Wyn Jones**
**79820**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/06/10**

**O dan rif contract Estyn: 1119009**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol**

108 Trefnir nifer o ymweliadau a phrofiadau addysgol i gyd-fynd â gwaith cwricwlaidd i safleoedd fel Castell Penrhyn, Amgueddfa Lechi Llanberis, Fferm Blaen y Nant, ymweliadau Comisiwn Coedwigaeth â'r Galeri yng Nghaernarfon. Trefnir cyfnodau preswyl i Lan-llyn ac i Gaerdydd. Mae'r profiadau yn cyfoethogi nifer o agweddau cwricwlaidd yn rhagorol yn ogystal ag ABCh, y CC a dwyieithrwydd.

109 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol a moesol y dysgwyr trwy'r gwasanaethau ysgol gyfan a'r gwersi addysg grefyddol sy'n cydymffurfio a gofynion statudol. Rhoddir cryn bwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr o'u rôl yn y gymuned leol.
Mae'r ysgol yn cymryd rhan amlwg mewn gweithgareddau diwylliannol lleol a chenedlaethol ac yn hyrwyddo'r CC yn effeithiol iawn.

**Addysg grefyddol**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

291 Mae sgiliau dysgwyr ar draws y ddau gyfnod yn rhagorol wrth fynegi barn. Mae eu hadnabyddiaeth o arteffactau crefyddol hefyd yn nodwedd ragorol. Dangosant ymdeimlad cryf o barch a chariad tuag at eraill ac ymgorfforir hyn yn llawn yn eu bywyd bob dydd.

292 Yn CA 1 mae‟r dysgwyr yn enwi arteffactau yn ardderchog ac mae‟r mwyafrif o‟r rhai hŷn yn defnyddio eu sgiliau meddwl yn ardderchog i ddyfalu i ba grefydd mae‟r arteffactau yn perthyn ac egluro yn eglur i eraill. Mae‟r mwyafrif ar draws y cyfnod yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o barchu credoau eraill.

293 Wrth ymweld â lleoedd addoli yn yr ardal, datblyga‟r holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y prif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o‟r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o‟r fath, megis bedydd a phriodas. Mae ganddynt wybodaeth dda iawn o rai o brif hanesion y Beibl.

294 Yn CA 2, mae‟r dysgwyr yn datblygu medrau ymresymu a dysgu trwy gyfrwng eu hastudiaeth bellach o grefyddau‟r byd, ac maent yn agored eu meddwl a chadarnhaol tuag at bobl sydd â chredoau gwahanol. Maent yn meddwl yn dda am faterion crefyddol a materion cyffredinol sy‟n codi o ddydd i ddydd. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da iawn o fewn grwpiau

295 Mae‟r dysgwyr yn arddangos ymagweddau cadarn iawn tuag at bwysigrwydd gofalu am y byd a gofal Duw. Maent i gyd yn sylweddoli‟r pwysigrwydd o edrych ar ôl yr amgylchedd.

**Diffygion**

296 Nid oes diffygion pwysig.